



Cyfarfod Partneriaeth
Tyfu Canolbarth Cymru

Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys, LD1 5LG

Dydd Gwener, 6 Ionawr 2017

10.30 a.m. – 12.40p.m.

Yn bresennol

Cynghorydd Barry Thomas, Cyngor Sir Powys (Cadeirydd)

Cynghorydd Ellen Ap Gwynn, Cyngor Sir Ceredigion (Is-Gadeirydd)

Ann Elias, Cyngor Sir Ceredigion (AE)

Ann Watkin, Llywodraeth Cymru (AW)

Ceri Stephens, Grŵp Cynhyrchu Canolbarth Cymru

Claire Miles, Swyddog Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru (CM)

Cynghorydd Tony Thomas, Cyngor Sir Powys (TT)

Cynghorydd Gareth Lloyd, Cyngor Sir Ceredigion

Dr Rhodri Llwyd Morgan, Prifysgol Aberystwyth

Gareth Price, Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru (GP)

Hazel Lubran, CAVO

Jane Lewis, RLSP (JL)

Jenni Thomas, Cyngor Sir Powys

John Jones, Llywodraeth Cymru (JJ)

Mike Shaw, Cyngor Sir Ceredigion (MS)

Mr Keith Henson, Coleg Ceredigion

Nia Williams, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Grŵp Cydweithredol Gofal
Iechyd y Canolbarth

Paul Griffiths, Cyngor Sir Powys (PG)

Russell Hughes-Pickering, Cyngor Sir Ceredigion

Sarah Thomas, NFU Cymru (ST)

Yn bresennol hefyd

Gerwyn Evans, Croeso Cymru, Llywodraeth Cymru (GE)

1. Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Gynghorydd Tony Thomas i'w gyfarfod Partneriaeth TCC cyntaf fel Deiliad Portffolio Adfywio a Chynllunio Cyngor Sir Powys.

Cafwyd ymddiheuriadau gan:-

- Arwyn Watkin – Hyfforddiant Cambrian,
- Barry Liles, Coleg Sir Gâr.
- Cynghorydd Alun Williams, Cyngor Sir Ceredigion (Cyng AW)
- Dr Sue Fish, Bwrdd Iechyd Hywel Dda. **Roedd**

Nia Williams, Swyddog Prosiect Gweithredol, yn bresennol ar ei rhan.

- Hywel Davies – Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Jacqui Weatherburn, Coleg Ceredigion. **Roedd Keith Henson, Pennaeth Gwasanaethau Masnachol a Menter, yn bresennol ar ei rhan.**
- Jeremy Patterson, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Powys.
- Mared Jones – Undeb Amaethwyr Cymru
- Rob Halford, Llywodraeth Cymru

Gofynnodd AW i'r cyfarfod nodi bod Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, yn ymwybodol o'r cyfarfod, ond yn anffodus, nid oedd modd iddo fod yn bresennol. Cadarnhaodd y byddai Ysgrifennydd y Cabinet yn cael ei hysbysu o ddyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol.

2. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref a Materion yn Codi (Atodiad A)**

Nododd y Bartneriaeth bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2016 yn gywir, ar yr amod bod ymddiheuriad Cynghorydd Avril York, Cyngor Sir Powys, yn cael ei ychwanegu i'r Cofnodion.

Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i ddiwygio'r Cofnodion er mwyn cofnodi ymddiheuriad Cynghorydd Avril York.

Materion yn Codi

Eitem 3; Gweithredu. Cyfarfod gyda Lesley Griffiths AC

Adroddwyd y bydd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd TCC yn cael cyfarfod gyda Lesley Griffiths AC ar 16 Ionawr 2017.

3. **Cyflwyniadau gan y Sector Twristiaeth: Gerwyn Evans (Croeso Cymru, LIC) a Gareth Price (Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru, Cadeirydd ac aelod TCC)**

Cafwyd cyflwyniad manwl gan Gerwyn Evans am Dwristiaeth yn rhanbarth Canolbarth Cymru.

Roedd y prif bwyntiau yn canolbwyntio ar:-

- Cyflogaeth ym maes Twristiaeth yng Nghymru
- Gwariant Posibl gan Ymwelwyr yng Nghymru
- Trosolwg o'r Rhanbarth Twristiaeth
- Lefelau ymgysylltu ac ymgysylltu allanol
- Busnesau y mae Croeso Cymru yn eu cynorthwyo
- Adolygiad o'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth

- Cyllid Ewropeaidd a Chyrchfannau Denu Twristiaid
- Manylion am y Gronfa Cymunedau Arfordirol
- Manylion am Gyllid Refeniw
- Atyniadau i ymwelwyr yng Nghanolbarth Cymru
- Denu a sut i ddenu busnesau i Ganolbarth Cymru fel lle delfrydol iddynt.

Mae copi o gyflwyniad Croeso Cymru ynghlwm.

Bu Gareth Price yn sôn am Lyfryn Teithio Croeso Cymru sydd ynghlwm, ynghyd â chyflwyniad diagramatig y cynnig twristiaeth amrywiol iawn y mae modd i ymwelwyr â'r rhanbarth fanteisio arno.

Yn dilyn hyn, bu cyfle i ofyn cwestiynau a chael trafodaeth.

Pan gyfarfu'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd gyda Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, pwysleiswyd ei fod yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth ar gyfer economi Canolbarth Cymru, gan dynnu sylw at yr angen i gydweithio fel rhanbarth er mwyn cydlynu'r cynnig twristiaeth ar draws y rhanbarth. Cyfeiriodd TT at bwysigrwydd gweithwyr mudol yn y sector twristiaeth yng Nghanolbarth Cymru, a'r sialensiau posibl a allai godi wrth geisio sicrhau bod gweithlu ar gael yn dilyn Brexit.

Cytunodd y Bartneriaeth gynnwys eitem sefydlog ar agenda ei chyfarfodydd er mwyn adrodd am gyfarfodydd Fforwm Twristiaeth Canolbarth Cymru, er mwyn cynnig trosolwg strategol a nodi'r ffordd y mae cynnydd yn y sector yn cyfrannu at waith ehangach y Bartneriaeth. Nodwyd bod Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn, felly byddai modd darparu adroddiad ym mhob un o gyfarfodydd y Bartneriaeth yn dilyn y cyfarfodydd hynny.

Gweithredu: Adroddiadau o gyfarfodydd Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru i'w darparu yng nghyfarfod dilynol Partneriaeth TCC.

4. **Adborth o'r Cyfarfod ar y cyd rhwng LEP y Gororau a TCC (14 Tachwedd 2016).**

Cyflwynodd CM adroddiad am y cyfarfod. Diolchodd i'r Aelodau a oedd wedi mynychu'r cyfarfod yn Llwydlo, a nododd eu bod wedi cael adborth cadarnhaol. Rhoddwyd nifer o gyflwyniadau yn ystod y cyfarfod a thrafodwyd materion economaidd allweddol a rennir.

Yn dilyn y cyfarfod, esboniodd CM bod grŵp swyddogion wedi cwrdd i adolygu a bwrw ymlaen gyda'r camau gweithredu; nodir y rhain yn yr adroddiad sydd ynghlwm.

Nodwyd y bwriedir cynnal cyfarfod pellach ar y cyd ag LEP y Gororau cyn diwedd y flwyddyn.

Hysbyswyd y Bartneriaeth o'r ffaith bod cyfarfodydd eraill wedi cael eu cynnal ynghylch materion trawsffiniol cysylltiedig, a **chytunwyd** y dylai'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd neu gynrychiolydd priodol fynychu yn ôl y gofyn.

Ar nodyn ar wahân, nodwyd y byddai Ceri Stephens, Grŵp Cynhyrchu Canolbarth Cymru, yn cynrychioli Partneriaeth TCC yn ystod cyfarfod am deleffoni symudol gyda Swyddfa Cymru yn swyddfeydd Ofcom yng Nghaerdydd.

Nododd y Cadeirydd bod y cyfarfod yn hynod o ddefnyddiol a chynhyrchiol. Amlygodd bryderon bod LEP y Gororau yn cynnwys mwy o gynrychiolaeth gan fusnesau. **Cytunwyd** bod angen cynnal trafodaethau ynghylch sut i ddenu mwy o gynrychiolaeth gan fusnesau yn ystod cyfarfodydd partneriaeth TCC. Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd i hon fod yn eitem ar yr agenda yn ystod un o cyfarfodydd Partneriaeth TCC yn y dyfodol, er mwyn ei drafod.

Gweithredu: Cynnwys yr eitem ar Agenda un o Gyfarfodydd Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn y dyfodol.

5. **Ymateb drafft: Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol**

Roedd Llywodraeth Cymru wedi ceisio ymatebion i ymgynghoriad am Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol erbyn 7 Ionawr 2017. Roedd Gweithgor Seilwaith a Chysylltedd y Bartneriaeth wedi datblygu ymateb drafft ar ran Partneriaeth TCC, a'i gyflwyno er mwyn ei drafod.

Mynegwyd pryderon gan Gyngorydd Tony Thomas ynghylch ymarferoldeb yr ymateb i Gwestiwn 3. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd diwygio'r ymateb i Gwestiwn 3 i ddarllen fel a ganlyn;

'Credwn y dylai'r Comisiwn gynghori am ddarpariaeth rhaglenni a gwaith yn y dyfodol. Yn ychwanegol i'r cynigion sylweddol sy'n ymwneud â'r seilwaith yng Nghymru a gynlluniwyd ar gyfer y 10 mlynedd nesaf,

byddwn yn gweld y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd yn fuan, ac o'r herwydd, mae'n bwysig ein bod yn ystyried synnwyr y penderfyniadau yr ydym yn bwriadu eu gweithredu ar hyn o bryd, a'n bod yn eu hasesu mewn ffordd gywir yn erbyn y tirlun yng Nghymru sy'n newid yn gyflym. Bydd hyn yn sicrhau bod modd i Gymru sicrhau'r canlyniadau economaidd gorau ag y bo modd ar gyfer ei rhanbarthau a'i chymunedau.'

Cytunodd y Bartneriaeth y dylid cyflwyno'r ymateb drafft yn unol â'r diwygiad uchod.

6. **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol**

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau ar gyfer Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru arfaethedig.' Cafodd y Bartneriaeth yr adroddiad sydd ynghlwm a bu'n ystyried proses er mwyn i'r Bartneriaeth ddatblygu ymateb rhanbarthol ar y cyd a chyflwyno prosiectau sy'n bwysig ar lefel ranbarthol. Nodwyd bod gofyn cyflwyno'r ymateb erbyn 7 Mawrth 2017.

Cytunodd y Bartneriaeth:

- Y dylai'r Aelodau nodi'r gwahoddiad i gyflwyno tystiolaeth a phrosiectau;
- Y dylid gofyn i'r Gweithgor Traws-sector ddrafftio ymateb, a fyddai'n cynnwys tystiolaeth a phrosiectau sy'n bwysig ar lefel ranbarthol. (Gall holl aelodau'r Bartneriaeth fynychu'r Gweithgor Traws-sector neu gael eu cynrychioli arno); ac,
- Y bydd yr ymateb rhanbarthol drafft yn cael ei ddsbarthu mewn neges e-bost er mwyn cael sylwadau amdano ac er mwyn cytuno arno cyn i Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Bartneriaeth ei lofnodi, er mwyn ei gyflwyno erbyn y dyddiad gofynnol, sef 7 Mawrth 2017.

7. **Adolygiad cynnydd blynyddol**

Cyflwynwyd adroddiad Adolygiad Blynyddol gan MS, a esboniodd ei bod yn amserol cynnal adolygiad o'r Bartneriaeth hyd yn hyn, gan edrych ymlaen dros y flwyddyn i ddod. Adroddiad yn nodi rhai o'r prosiectau allweddol a gymeradwywyd/sy'n cael eu gweithredu/neu a gwblhawyd yn y Rhanbarth a chyflawniadau allweddol ar gyfer y rhanbarth hyd yn hyn. Esboniodd MS bod prosiectau pellach (er enghraifft, yr hyn a gyflawnir gan Busnes Cymru) i'w hychwanegu i'r adroddiad, ond y byddai'n creu ffordd o adrodd yn rheolaidd am y cynnydd yn ystod cyfarfodydd yn y dyfodol.

Roedd y Bartneriaeth yn cydnabod ac yn nodi'r cynnydd a sicrhawyd hyd yn hyn.

Bu'r bartneriaeth yn trafod yr anawsterau sy'n codi wrth gasglu gwybodaeth am y cynnydd a gaiff ei sicrhau gan weithrediadau ar draws Cymru sy'n darparu yn rhanbarth Canolbarth Cymru, yn enwedig prosiectau a ariannir gan ESF. Roedd AW yn cydnabod y byddai modd cynnwys gwybodaeth Busnes Cymru.

Gweithredu: Byddai AW yn ceisio gwybodaeth gan Busnes Cymru er mwyn cynorthwyo gweithgarwch rheolaidd er mwyn adrodd am gynnydd i'r Bartneriaeth.

8. **Cynllun Gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod**

Cyflwynwyd yr Adroddiad sydd ynghlwm am gynllun Gwaith ar gyfer gweithgareddau'r Bartneriaeth ar gyfer 2017, a rhoddwyd esboniad manwl amdano.

Yn dilyn trafodaeth, **cytunodd** y Bartneriaeth ar yr adroddiad a'r Cynllun Gwaith ar gyfer 2017.

9. **Adroddiad Ymgysylltu Rhanbarthol**

Cyflwynodd MS yr Adroddiad Ymgysylltu Rhanbarthol i'r Bartneriaeth, gan roi diweddariad manwl am y gwaith a wnaethpwyd.

Nodwyd yr argymhellion gan Bartneriaeth TCC a **cytunodd** â'r argymhellion yn yr adroddiad, sef:-

Sbardun Menter Cymdeithasol

Y dylai Partneriaeth TCC groesawu a chynorthwyo *gweithrediad* arfaethedig y *Sbardun Menter Cymdeithasol*, a pharhau i weithio gyda chysylltiadau yng Nghymru er mwyn sicrhau bod modd i'r gweithrediadau gynyddu eu cyfraniad i fframwaith y Bartneriaeth gymaint ag y bo modd.

Cais Agored am Weithrediadau Ymchwil ac Arloesi

Nodi a chynorthwyo'r tri phrosiect sy'n cael eu datblygu gan Brifysgol Aberystwyth ar hyn o bryd, gan gydnabod y cyfraniad y byddent yn ei wneud i'r rhanbarth a'r ffaith eu bod yn cyd-fynd â dogfen Fframwaith Gweithredu Partneriaeth Tyfu

Canolbarth Cymru. Ac felly, parhau i gydweithio'n agos â Phrifysgol Aberystwyth er mwyn sicrhau bod modd i bob prosiect sy'n cyrraedd y cam datblygu busnes wneud cyfraniad mor fawr ag y bo modd i Fframwaith gweithredu y bartneriaeth.

10. **Gweithgor Seilwaith a Chysylltedd, Diweddariad ar gyfer Chwarter 4, 2016**

Rhoddodd AE ddiweddariad am Chwarter 4, 2016, ynghylch trafndiaeth ar draws y rhanbarth.

Rheilffordd

Mae Masnachfaint Cymru a'r Gororau yn symud yn ei blaen. Nodwyd y trefnwyd digwyddiad dau ddiwrnod yn y Trallwng er mwyn caniatáu i'r cynigwyr esbonio'u cynnig. Dylai hyn gyfrannu at y meini prawf ar gyfer y fasnachfaint, y disgwylir i Lywodraeth Cymru ymgynghori amdani ym mis Mawrth 2017. Fel rhan o'r fasnachfaint hon, bydd trenau newydd ond nid ar gyfer ardal gyfan y fasnachfaint. Nodwyd bod gwaith yn cael ei wneud gyda Network Rail er mwyn trafod datrysiadau eraill i'r sefyllfa o ran cerbydau yn y rhanbarth hwn.

Bellach, mae'r gwelliannau (sy'n cynnwys mynediad gwell) yng Ngorsaf Rheilffordd Machynlleth wedi cael eu cwblhau, ond nododd AE ein bod yn aros am newyddion o hyd ynghylch ymestyn y maes parcio yno.

Mae LIC wedi gwneud cais i Lywodraeth y DU am £6.8m trwy NSF2 am orsaf newydd yn Bow Street, sy'n cynnwys plattform trenau a chyfnewidfa newydd, lle parcio ac arosfannau bysiau, yn ogystal â chylchfan newydd ar Gefnffordd A487. Nododd AE eu bod yn disgwyl clywed y penderfyniad ariannol gan DFT erbyn diwedd mis Mawrth 2017.

Cysylltiadau Trawsffiniol

Mae grŵp swyddogion TCC yn parhau i weithio gydag LEP y Gororau ar yr agenda trafndiaeth.

Ar ôl cael cadarnhad y byddai'n cael ei sicrhau bod gwaith TraCC yn cyd-fynd â gwaith y Bartneriaeth, nododd MS bod hyn wedi cael ei gwblhau ac y cynhelir mwy o gyfarfodydd gyda Gwynedd i drafod hynny.

Diolchodd y Cadeirydd i AE am ei diweddariad i'r grŵp a nodwyd cynnwys yr Adroddiad.

11. **Gohebiaeth a gafwyd:
Llythyr gan Ganolfan Cydweithredol Cymru
08.11.2016**

Cafwyd y llythyr sydd ynghlwm gan Ganolfan Cydweithredol Cymru, dyddiedig 8 Tachwedd 2016, a oedd yn gofyn am gynrychiolydd o Dyfu Canolbarth Cymru i eistedd ar ei grŵp cynghori strategol yn ei Phencadlys yng Nghaerffili. Nodwyd y byddai Canolfan Cydweithredol Cymru yn talu am y costau teithio er mwyn mynychu cyfarfodydd.

Cytunodd y Bartneriaeth mai ei chynrychiolydd fyddai Claire Miles neu Mike Shaw (bydd Claire a Mike yn penderfynu yn ôl yr angen).

Nodwyd y bydd gwybodaeth gefndirol bellach am y cyfarfodydd yn cael ei darparu.

12. **Cynrychiolaeth ar gyfer Grŵp Gweithredu Gorsaf Carno a Gwyliau Gwyrdd yng Nghymru ym Mhartneriaeth TCC.** I'w drafod

Nododd y Cadeirydd y cafwyd cais gan Grŵp Gweithredu Gorsaf Carno a Gwyliau Gwyrdd Cymru iddynt gael eu cynrychioli yn y Bartneriaeth. Yn dilyn trafodaeth, **cytunwyd** cyfeirio'r mater i Weithgor Seilwaith a Chysylltedd y Bartneriaeth er mwyn iddynt fwrw ymlaen ag ef fel rhan o'u gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill.

Gweithredu: AE i wahodd cynrychiolaeth o'r Gweithgor Seilwaith a Chysylltedd i ystyried trefniadau i'r grŵp ymgysylltu â Grŵp Gweithredu Gorsaf Carno a Gwyliau Gwyrdd yng Nghymru a rhanddeiliaid eraill.

Nododd y Cadeirydd hefyd y cafwyd cais gan Dr Rhian Hayward MBE, Prifysgol Aberystwyth, i fod yn aelod o Grŵp Partneriaeth TCC. Nodwyd bod Prifysgol Aberystwyth eisoes yn Aelod o Bartneriaeth TCC a'i bod yn cael ei chynrychioli gan Dr Rhodri Llwyd Morgan. Byddai'r Bartneriaeth yn fwy na bodlon croesawu Dr Hayward MBE i fynychu cyfarfodydd Partneriaeth TCC er mwyn cyfrannu at y trafodaethau ac i fynychu ar ran Dr Rhodri Llwyd Morgan os na fydd modd iddo ef fod yn bresennol.

13. **Unrhyw Fater Arall**
Nid oedd unrhyw faterion ychwanegol i'w hadrodd heddiw.

14. Dyddiad yn y dyfodol: 24 Mawrth 2017 am 10.00am yn Ystafell Gyfarfod 1, Canolfan Rheidol, Aberystwyth.

Y CYNGHORYDD BARRY THOMAS
CADEIRYDD